

## Llwyni Priordy Aberhonddu

Mae Llwyni'r Priordy yn ardal coetir cymysg hardd sy'n ffinio ag afon Honddu. Mae'r coed yn ffawydden yn bennaf, gyda rhywogaethau eraill o goed gan gynnwys derw, cyll a gwernen. Mae'r llwybr yn cynnig lleoliad tawel i ymwelwyr fwynhau natur a bywyd gwylt yn ystod pob tymor.



Ar yr afon gallwch weld bronwen y dŵr a siglennod llwyd. Mae gan yr ardal hefyd arddangosfa amrywiol o flodau gwylt yn ystod y gwanwyn a dechrau'r haf. I'r rhai sy'n ymddiddori mewn hanes, mae Llwyni'r Priordy yn rhan o Daith Gerdded Tref Aberhonddu ac yn nodedig am ei agosrwydd at adeiladau hanesyddol fel Eglwys Gadeiriol Aberhonddu.

### Gwylwch allan am

**Cynffonnau Wyn Bach** yn gynnar yn y gwanwyn maen nhw'n rhyddhau eu pail i wneud cnau cyll yr hydref.

**Blodyn y Gwynt** mae'r blodau seren gwyn hyn yn un o'r rhai cyntaf i flodeuo yn gynnar yn y gwanwyn.

**Clychau'r gog** ddiwedd y gwanwyn mae gan y blodau Prydeinig brodorol hyn arogl melys.

**Tafod yr Hydd** a geir mewn lleoedd llaith, cysgodol gyda dail heb eu rhannu.

**Cnau Ffawydd** - ynghyd â chnau mae'r rhain yn darparu bywyd ar gyfer llygod a gwiwerod.

**Coed marw** - mae boncyffion coed sy'n pydru yn creu cynefinoedd hanfodol i lawer o greaduriaid bach sy'n bwyta ac yn ailgylchu'r pren a'r adar sy'n bwydo ar y creaduriaid hyn. Maent hefyd yn darparu lloches i famaliaid bach.



## Allwch chi ddod o hyd i bob un o'r 10 cerflun?

Dilynwch y llwybr hwn o gerfluniau bywyd gwylt trwy Llwyni Priordy Aberhonddu a darganfyddwch fwy am yr anifeiliaid y maent yn eu cynrychioli. Mae rhai yn hawdd dod o hyd iddynt, mae eraill yn fwy cudd, ond bydd lle maen nhw'n byw yn rhoi clw i chi.

Mae'r llwybr ar lwybrau coetir gyda rhai llethrau, rhannau anwastad a lleidiog ac mae'n filtri o hyd yno ac yn ôl. Argymhellir esgidiau cerdded neu welingtons.

Gellir cael mynediad i'r Llwybr Bywyd Gwylt ar draws pont droed o'r Struet, mynwent yr Eglwys Gadeiriol a llwybr troed o Gos Pendre ochr yn ochr ag Ysgol y Priordy. Chwiliwch am y fuwch goch gota ar ymyl y cae.

# Llwybr Cerfluniau Bywyd Gwylt



### Cyfeillion Llwyni Priordy Aberhonddu â'r Promenâd

Trefnwyd y llwybr hwn gan grŵp cymunedol Cyfeillion Llwyni Priordy Aberhonddu â'r Promenâd Cyfeillion Llwyni Priordy Aberhonddu â'r Promenâd a rianwyd gan y Gronfa Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'i gefnogi gan Gyngor Sir Powys gyda cherfiadau gan Thomas Carvings.

Mae'r grŵp gwirfoddoli hwn yn helpu i gynnal Llwyni Priordy Aberhonddu â'r Promenâd i babw eu mwynhau. Am fwy o wybodaeth am eu prosiectau a'u gweithgareddau gwirfoddoli cysylltwch â:

FOBGAP@outlook.com [www.breconpriorygroves.co.uk](http://www.breconpriorygroves.co.uk)



**Llwyni Priordy Aberhonddu**  
Dilynwch y cerfluniau i ddarganfod mwy am fywyd gwylt yng nghanol Aberhonddu.

**1. Buwch Goch Gota** Mae'r Fuwch Goch Gota yn gaeafu mewn craciau sych, cysgodol mewn rhisgl a hen lystyfiant. Yn enwog am fod yn ysglyfaethwr brwd o aphids, mae'r fuwch goxh gota yn ffrind go iawn i arddwyr. Mae 26 o rywogaethau yn y Deyrnas Unedig.

**2. Llygoden y Coed** Hollysydd sy'n bwyta ffrwythau, hadau a chnau yn ogystal â mwydod, neidr gantroed a lindys. Maent yn nosol yn bennaf ac yn hoff ysglyfaeth i dylluanod. Gall llygod coed benywaidd gael chwe thorllwyth y flwyddyn i gynnal a chadw'r boblogaeth.

**3. Gwrachod lludw** Mae Gwrachid lludw wedi bod o gwmpas ers dros 300 miliwn o flynyddoedd. Yn perthyn i gorgimychiaid a chrancod, mae'r cramenogion hwn yn hanfodol ar gyfer ailgylchu coed a phlanhigion marw. Maent yn sychu allan yn hawdd felly yn cuddio mewn lleoedd oer, llaith. Mae gan y fenyw sach lle mae wyau yn deor i'r ifanc.

**4. Ystlum Pedol Lleiaf** Mae dyffryn uchaf y Wysg yn gadarnle cynefin i'r ystlum hwn, un o'r lleiaf o rywogaethau Prydeinig. Mae'n dod i'r amlwg ar ôl machlud ac mae'n defnyddio adleoliad i hela gwyfynod, mosgitos, gwybed, lacewau a merywod, anaml yn hedfan mwy na 5 metr uwchben y ddaear.

**5. Dringwr bach** Mae'r aderyn bach hwn yn troelli wrth ddringo i fyny coed, gan ddefnyddio ei big hir, main wedi'i droi i fwydo ar bryfed yn y rhisgl. Wrth gyraedd pen y goeden mae'n hedfan ar waelod yr un nesaf i ddechrau eto.

★ Mynedfeydd i gael mynediad i'r llwybr



## Llwybr Cerfluniau Bywyd Gwylt

**6. Tylluan Frech** Mae'r benyw yn gwneud y swm twit a'r gwryw yn ymateb gyda 'hw-hw'. O liw brown cochlyd gyda ochr mwy gwelw, maent yn bwydo'n bennaf ar famaliaid bach fel llygod yn ystod eu hela gyda'r nos.

**7. Llywngog** Mae llwynogod yn helwyr arbenigol, yn dal cwningod, cnofilod, adar a brogaod ynghyd ag aeron pan yn y tymor. Mae ganddynt un torllwyth o 4-6 cwbb bob blwyddyn ar ddechrau'r gwanwyn.

**8. Dyfrgrwn** Yn dal i fod yn rhywogaeth fregus, gellir gweld dyfrgrwn ar yr Honddu o bryd i'w gilydd. Gyda chyrrff hir, main, cynffon drwchus a thraed gweog. Maent gartref yn y dŵr, yn bwydo pysgod, llyswennod yn ogystal â brogaod yn y gwanwyn. Maent ond yn ffynnu mewn afonydd glân ac iach.

**9. Llygod y Banc** Gwahaniaethir oddi wrth llygod oherwydd eu hwynebau amrytach, clustiau llai a chynffonau byrrach, mae llygod y banc yn byw mewn coetir a gwrychoedd. Maent yn bwyta ffrwythau, cnau a phryfed bach ac maent yn arbennig o hoff o fwyta i cnau cyll a mwyar duon. Maent yn aml yn gollwng ysglyfaeth i dylluanod a gwenolaiad.

**10. Eog** Mae eog yr lwyrydd yn gwneud taith epig yn ystod ei fywyd. Maent yn byw mewn afonydd fel anifail ifanc (smolt) cyn ymfudo i'r môr i aeddfedu. Pan mae'n amser i dodwy wyau, maent yn teithio yn ôl i'w hafon enedigol. Cafodd y rhan hon o gored yr Honddu ei symud i'w gwneud hi'n haws i eogiaid sy'n dychwelyd deithio i fyny'r afon.

Llawrlythwch Ap LERC i gofnodi'r bywyd gwylt rydych chi'n dod o hyd iddo a helpu cadwraeth natur:  
<https://www.lercwales.org.uk/app.php>

Am fwy o deithiau cerdded bywyd gwylt a threfn yn Aberhonddu:  
<https://visitbrecon.org>